

E-lawlyfr 2

CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

Adnodd 2

Rhyddfrydiaeth: Ffrydiau Amrywiol

Cyflwyniad a Gwybodaeth Graidd

CYFLWYNIAD

Cynhyrchwyd yr e-lawlyfr hwn er mwyn cynorthwyo disgyblion ac athrawon sy'n astudio'r cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a hefyd i ddarparu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer myfyrwyr israddedig. Mae'r cynnwys felly wedi'i lunio i gefnogi manyleb Safon UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC. Er bod CBAC wedi rhoi cyngor ar y deunyddiau hyn, y cyhoeddwr sy'n llwyr gyfrifol am y cynnwys.

Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth sydd wedi cynhyrchu'r deunydd ac mae rhai cyfranwyr allanol wedi cyfrannu at rai adnoddau unigol. Ariannwyd y prosiect gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r e-lawlyfr yn ymateb i'r bwlch mewn deunydd astudio cyfrwng Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Nid cynhyrchu gwerslyfr swmpus oedd y bwriad, ond yn hytrach ddatblygu adnoddau sy'n ymateb i'r angen am wybodaeth graidd, am ymarferion ar gyfer disgyblion a chanllawiau i athrawon.

Mae E-lawlyfr 2 yn cynnwys 8 adnodd astudio unigol sy'n cydfynd ag agweddau ar fanyleb Uned 3 y cwrs Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, sef 'Cysyniadau a Damcaniaethau Gwleidyddol.' Mae tair elfen i bob adnodd:

: Gwybodaeth Graidd

: Llawlyfr Gwaith i'r Disgyblion

: Canllaw i Athrawon

Amlinellir cynnwys E-lawlyfr 2 ar y dudalen nesaf, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â pha agweddau ar fanyleb CBAC sy'n cael sylw yn yr 8 adnodd gwahanol.

Cyhoeddwyd yr e-lawlyfr dan drwydded Creative Commons BY-SA 4.0, sy'n eich caniatáu i'w ail-ddefnyddio a'i newid mewn unrhyw fodd, cyhyd a'ch bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn trwyddedu eich fersiwn ddeilliadol yn yr un modd. Mae testun llawn y drwydded ar gael yma: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

TEITL YR UNED	MANYLION Y FANYLEB SY'N CYFATEB I GYNNWYS YR UNED
Adnodd 1: Rhyddfrydiaeth: nodweddion allweddol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 2: Rhyddfrydiaeth: ffrydiau amrywiol	3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 3: Ceidwadaeth: nodweddion allweddol	3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 4: Ceidwadaeth: ffrydiau amrywiol	3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 5: Sosialaeth: nodweddion allweddol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 6: Sosialaeth: ffrydiau amrywiol	3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 7: Cenedlaetholdeb: nodweddion allweddol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol
Adnodd 8: Cenedlaetholdeb: ffrydiau amrywiol	3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol

Awdur yr adnodd hwn:

Dr. Huw Lewis

GWYBODAETH GRAIDD

Ffrydiau Rhyddfrydol Amrywiol

Fel y dadleuodd yr hanesydd syniadau blaenllaw John Gray, nid un corff taclus a chydlynol o syniadau mo rhyddfrydiaeth. Er bod rhai ysgolheigion wedi ceisio dadlau o blaid bodolaeth un athrawiaeth ryddfrydol bur, yr arfer ymhlith y mwyafrif yw mynnu ei bod yn fwy priodol gwahaniaethu rhwng amrywiol ffrydiau rhyddfrydol. Ymhlith y ffrydiau hyn, y mwyaf blaenllaw yw Rhyddfrydiaeth Glasurol a Rhyddfrydiaeth Fodern. Fel y gwelir isod mae'r ddwy ffrwd hon yn rhannu cred mewn egwyddorion rhyddfrydol creiddiol, fel unigolyddiaeth a rhyddid. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd mae meddylwyr sy'n perthyn i'r naill ffrwd neu'r llall wedi dehongli'r egwyddorion hyn mewn ffyrdd gwahanol ac mae hyn wedi arwain at gasgliadau gwahanol iawn ynglŷn â sut y dylid trefnu cymdeithas.

Rhyddfrydiaeth Glasurol

Rhyddfrydiaeth Glasurol yw'r hynaf o'r ddwy ffrwd. Mae gwreiddiau'r ffrwd hon o ryddfrydiaeth yn ymestyn yn ôl i'r ail ganrif ar bymtheg ac erbyn degawdau cynnar y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd Rhyddfrydiaeth Glasurol wedi dod i hawlio cefnogaeth eang iawn, yn enwedig ar draws y byd Seisnig. Yn wir, o ganlyniad i'r ffaith bod y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cael ei hystyried fel oes aur i'r ffrwd hon o ryddfrydiaeth cyfeirir ati weithiau fel 'Rhyddfrydiaeth y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg'. Mae dadleuon sy'n perthyn i'r traddodiad rhyddfrydol hwn yn tueddu i fod yn rhai sy'n pwysleisio'r elfennau craidd canlynol:

- : **Unigolyddiaeth:** Mae'r pwyslais rhyddfrydol ar yr unigolyn yn amlwg iawn yn syniadau'r garfan glasurol. Fodd bynnag, unigolyddiaeth go eithafol yw hon. Caiff cymdeithas ei dehongli fel dim mwy na chasgliad o unigolion sydd oll yn ymdrechu i fodloni eu hanghenion a'u dyheadau gwahanol. Yn ôl y dehongliad hwn, mae bodau dynol yn greaduriaid annibynnol a chwbl hunangynhaliol heb unrhyw gyfrifoldeb tuag at unigolion eraill neu i'r gymdeithas yn gyffredinol.
- : **Rhyddid Negatif:** Mae'r dehongliad uchod o natur cymdeithas – sef casgliad o unigolion annibynnol a hunangynhaliol – yna'n dylanwadu ar ddehongliad y rhyddfrydwyr clasurol o natur rhyddid. Disgrifir y dehongliad hwn fel rhyddid negatif ac mae'n seiliedig ar y dybiaeth y bydd yr unigolyn yn rhydd cyhyd ag y bo'n cael llonydd i fyw ei fywyd heb unrhyw ymyrraeth ac yn medru gwneud yn union fel y mynno. Disgrifir y dehongliad hwn fel un negatif, gan ei fod yn seiliedig ar y gred bod rhyddid yn deillio o ddiddymu unrhyw rwystrau neu gyfyngiadau allai amharu ar ymreolaeth yr unigolyn.
- : **Gwladwriaeth Gyfyngedig:** Mae'r pwyslais ar ryddid negatif, yn ei dro, yn effeithio ar syniadau'r rhyddfrydwyr clasurol ynglŷn â rôl y wladwriaeth. Caiff hanfod y syniadau hyn eu cyfleu yn effeithiol gan eiriau Tom Paine a ddisgrifiodd y wladwriaeth fel '*a necessary evil*' – rhywbeth hanfodol, ond eto nid rhywbeth y dylid ei dathlu a'i fawrygu. Ar y naill law, mae'r wladwriaeth yn hanfodol, gan ei bod yn cyfrannu at gynnal trefn ac felly yn atal gwrthdaro rhwng unigolion. Byddai cymdeithas wâr yn amhosib heb reoleiddiwr o'r fath – byddai cyflwr o ryddid negyddol pur yn arwain at ansefydlogrwydd parhaol wrth i unigolion a'u buddiannau fynd benben â'i gilydd. Ond ar y llaw arall, mae rhyddfrydwyr clasurol yn mynnu na ddylid dathlu a mawrygu'r wladwriaeth, gan fod sefydlu endid o'r fath yn siŵr o arwain at gyfyngu cryn dipyn ar ryddid pob unigolyn. O ganlyniad, er mwyn glynu cymaint â phosib at y ddelfryd o ryddid negatif, mae Rhyddfrydwyr Clasurol yn mynnu y dylid cyfyngu'n sylweddol ar gyfrifoldebau'r wladwriaeth. Yn fras, ni ddylid caniatáu i'r wladwriaeth wneud dim mwy na'r hyn sy'n hanfodol er mwyn cadw cyfraith a threfn ac i warchod unigolion a'u heiddo

rhag ei gilydd neu ymosodiad allanol. Dylid ymddiried pob cyfrifoldeb arall yng ngalluoedd yr unigolion annibynnol a hunangynhaliol sy'n byw o fewn cymdeithas. Golyga hyn fod Rhyddfrydwyr Clasurol wedi bod yn wrthwynebus i'r syniad y dylai'r wladwriaeth ymyrryd mewn meysydd polisi cymdeithasol neu economaidd pwysig, fel addysg, iechyd neu gyflogaeth.

Un meddyliwr pwysig a gysylltir â'r ffrwd glasurol o ryddfrydiaeth a ddatblygodd i fod mor boblogaidd erbyn degawdau cyntaf y bedwaredd ganrif yw John Locke (1632-1704). Daeth Locke i amlygrwydd fel meddyliwr gwleidyddol yn dilyn Chwyldro Gogoneddus Lloegr ym 1688. Arweiniodd y Chwyldro hwn at gyfyngu ar rym absoliwt y frenhiniaeth a gellir dehongli llawer o waith Locke – ac yn enwedig felly ei gyhoeddiad pwysicaf sef y *Two Treatises of Government* (1689) – fel amddiffyniad o'r newidiadau hyn.

Yn arwyddocaol, yn ystod penodau olaf y *Two Treatises* mae Locke hefyd yn mynd ati i amlinellu ei syniadau ynglŷn â seiliau cymdeithas gyfiawn. Man cychwyn Locke yw disgrifio bywyd unigolion yn y cyflwr naturiol – cyflwr cymdeithasol dychmygol lle mae pobl yn byw gyda'i gilydd yn gwbl gydradd heb ddibynnu ar awdurdod unrhyw lywodraeth. Yn y cyflwr naturiol hwn, bydd bywyd yn cael ei reoleiddio gan gyfres o gyfreithiau naturiol, sef yr hawl i fywyd, rhyddid ac eiddo. Dyma elfennau sydd, yn nhyb Locke, yn gwbl hanfodol er mwyn caniatáu i unigolion fyw bywyd cyflawn. Eto i gyd, gan nad oes unrhyw lywodraeth yn bodoli yn y cyflwr naturiol, ni ellir sicrhau y bydd y cyfreithiau pwysig hyn yn cael eu cynnal.

Mewn amgylchiadau o'r fath, cred Locke y byddai pawb yn dod i gytundeb ynglŷn â'r angen i sefydlu gwladwriaeth. Cyfeiria at y broses hon fel y 'cyfamod cymdeithasol'. Wedi iddo gael ei sefydlu, gwaith y llywodraeth fyddai cynnal ein hawliau naturiol – bywyd, rhyddid ac eiddo. Tra bo hyn yn digwydd bydd disgwyl i bawb ufuddhau i'r wladwriaeth. Eto i gyd, yn nhyb Locke, mae'r grym a drosglwyddir gan bobl i'r wladwriaeth yn gyfyngedig iawn o ran ei sgôp. Nid yw'n ymestyn y tu hwnt i'r dasg o gynnal a gwarchod ein hawliau naturiol. Yng ngeiriau Locke golyga nad yw'r wladwriaeth ond yn gweithredu fel 'nightwatchman', gan ganolbwyntio ar dasgau cyfyngedig iawn megis cadw trefn a gwarchod pobl a'u heiddo rhag ymosodiadau. Yn nhyb Locke, ni ddylai'r wladwriaeth ymyrryd mewn unrhyw fater sy'n ymestyn y tu hwnt i'r terfynau hyn. Dylai'r dasg o ddelio â materion cymdeithasol ehangach gael ei gadael i unigolion preifat.

Felly, o ystyried syniadau John Locke, gwelir bod cryn debygrwydd rhyngddynt a'r dadleuon hynny ynglŷn â rhyddid negyddol a gwladwriaeth gyfyngedig a ymgorfforwyd maes o law o dan faner rhyddfrydiaeth glasurol ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Meddyliwr arall y dylid ei ystyried yng nghyd destun rhyddfrydiaeth glasurol yw'r economegydd o'r Alban, **Adam Smith** (1723-1790). Roedd gwaith Smith, er enghraifft cyfrolau megis *The Wealth of Nations* (1776), yn gyfraniad pwysig i'r drafodaeth ynglŷn â rôl briodol y wladwriaeth, ac yn benodol, ei rôl o fewn yr economi.

Ysgrifennai Smith mewn cyfnod pan roedd hi'n arferol i wladwriaethau reoleiddio cryn dipyn ar weithrediad yr economi. Er enghraifft, trwy'r unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg tybid y dylai gwladwriaethau ymyrryd yn yr economi er mwyn hybu'r broses o allforio nwyddau, ond ar yr un pryd, cyfyngu ar yr angen i fewnforio. Un o brif amcanion ysgrifau economaidd Smith oedd ymosod ar y meddylfryd hwn a dangos y byddai'n llawer mwy llesol pe bai'r wladwriaeth yn camu'n ôl yn llwyr o'r economi. I ddechrau, dadleuodd Smith fod ymyrraeth barhaol gan y wladwriaeth mewn materion economaidd yn cyfyngu ar ryddid pobl, er enghraifft: rhyddid perchnogion cwmnïau i benderfynu pa nwyddau i'w cynhyrchu, i bwy roeddent am eu gwerthu ac am ba bris; rhyddid gweithwyr i benderfynu i bwy roeddent am weithio, am faint o gyflog ac am faint o amser bob wythnos; a rhyddid cwsmeriaid i benderfynu pa nwyddau yr hoffent eu prynu. Fodd bynnag, yn ogystal â hybu rhyddid economaidd unigolion, dadleuodd Smith y byddai cam yn ôl gan y

wladwriaeth hefyd yn arwain at greu trefn economaidd lawer mwy hyblyg ac effeithiol. Deilliai'r ail ddadl hon o gred Smith y dylid meddwl am yr economi fel marchnad sy'n meddu ar y gallu i drefnu a rheoleiddio ei hun. O ganlyniad, dylid atal unrhyw ymyrraeth allanol gan y wladwriaeth, er enghraifft wrth wynebu sialensiau megis diweithdra neu chwyddiant, gan adael i faterion o'r fath gael eu datrys trwy gyfrwng 'llaw anweledig' y farchnad.

Datblygodd syniadau economaidd tebyg i rai Smith i fod yn ganolog i agenda'r Rhyddfrydwyr Clasurol erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Arweiniodd hyn at gred mewn polisiau economaidd *laissez-faire*, sef polisiau sy'n datgan y dylai'r wladwriaeth ymatal rhag ymyrryd yng ngweithrediad yr economi. Yn ymarferol, golygai hyn fod Rhyddfrydwyr Clasurol wedi tueddu i wrthwynebu mesurau gan y wladwriaeth sydd â'r nod o reoleiddio agweddau ar yr economi, er enghraifft:

: Mesurau sy'n cyfyngu ar hyd y diwrnod gwaith.

: Mesurau sy'n sefydlu lleiafswm cyflog i bob gweithiwr.

: Mesurau sy'n sefydlu safonau iechyd a diogelwch y dylai pob cyflogwr eu gwarantu.

Eto i gyd, nid dim ond corff o syniadau gwleidyddol sy'n perthyn i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac sydd bellach ond o ddiddordeb hanesyddol yw Rhyddfrydiaeth Glasurol. Er bod y ffrwd hon o ryddfrydiaeth wedi colli cryn dipyn o hygredd erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, gwelwyd llawer o'i dadleuon a'i hegwyddorion creiddiol yn ailymddangos ac yn hawlio cefnogaeth o'r newydd o tua'r 1970au ymlaen. Sbardunwyd datblygiad y ffurf fodern ar Ryddfrydiaeth Glasurol gan waith ffigurau fel Friedrich von Hayek, Ayn Rand a Robert Nozick. Unwaith eto, mewn rhannau o'r byd Seisnig, yn enwedig yn yr Unol Daleithiau a'r Deyrnas Unedig y gwreiddiodd y syniadau hyn i ddechrau – yn enwedig yn ystod cyfnod Ronald Reagan a Margaret Thatcher yn ystod yr 1980au. Fodd bynnag, law yn llaw â datblygiad globaleiddio economaidd, fe'u gwelwyd yn ymledu i bedwar ban byd erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain. Yn aml iawn, adwaenid y ffrwd fwy diweddar yma o feddwl gan y label neoryddfrydiaeth.

Rhyddfrydiaeth Fodern

Erbyn yr 1880au, roedd yn gynyddol amlwg bod rhai carfanau o fewn y traddodiad rhyddfrydol yn dymuno newid cyfeiriad gan aildehongli rhai o ddadleuon craidd Rhyddfrydiaeth Glasurol. Yn gefndir i hyn roedd datblygiad pellach cyfalafiaeth ddiwydiannol yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd rhai carfanau o fewn cymdeithas wedi llwyddo i elwa'n sylweddol yng nghanol berw'r Chwyldro Diwydiannol. Ar yr un pryd, arweiniodd at broblemau cymdeithasol difrifol. Daeth ffactorau fel tlodi, afiechydon, diffyg addysg ac amodau gwaith anodd yn fwyfwy amlwg. O ystyried difrifoldeb cynyddol y problemau hyn, roedd nifer cynyddol o ryddfrydwyr yn ei chael yn anodd amddiffyn rhai o'u rhagdybiaethau clasurol. Dechreuwyd holi i ba raddau yr oedd lles a rhyddid yr unigolyn yn cael ei hybu trwy fynnu y dylid sefyll yn ôl a gadael llonydd iddo a thrwy fynnu y dylai'r wladwriaeth ymatal rhag ymyrryd mewn meysydd fel addysg, amodau gwaith a gofal iechyd. Hybwyd y drafodaeth hon ymhellach gan ddatblygiad syniadau sosialaidd a arweiniodd at ymwybyddiaeth gynyddol o arwyddocâd gwleidyddol gwahanol broblemau cymdeithasol ac economaidd. Yn y pen draw, arweiniodd y myfyrio hwn at ddatblygu ffrwd newydd o ryddfrydiaeth – Rhyddfrydiaeth Fodern. At ei gilydd, mae dadleuon Rhyddfrydwyr Modern yn tueddu i bwysleisio'r elfennau craidd canlynol:

- : **Unigolyddiaeth Gymdeithasol:** Mae Rhyddfrydwyr Modern wedi tueddu i ddehongli unigolyddiaeth mewn modd gwahanol iawn i Ryddfrydwyr Clasurol. Mae unigolyddiaeth gymdeithasol y garfan fodern yn parhau i bwysleisio arwyddocâd moesol yr unigolyn. Fodd bynnag, mae hwn yn ddehongliad o unigolyddiaeth sydd hefyd yn cydnabod arwyddocâd y cysylltiad rhwng bodau unigol ac unedau ehangach, fel y teulu, y gymdeithas a hyd yn oed y genedl. Cred Rhyddfrydwyr Modern fod medru manteisio ar y cysylltiadau hyn yn allweddol er mwyn i unigolion gael y cyfle i ddarganfod eu gwir gymeriad a chyflawni eu potensial.
- : **Rhyddid Positif:** Mae Rhyddfrydwyr Modern hefyd wedi tueddu i arddel dehongliad amgen o ystyr rhyddid. Maen nhw'n dadlau bod rhyddid yn galw am lawer mwy na dim ond diddymu rhwystrau gan adael llonydd i'r unigolyn. Yn hytrach, credant bod sicrhau gwir ryddid yn galw am greu amodau a fydd yn rhoi cyfle teg i'r unigolyn i ddatblygu ei alluoedd a'i ddealltwriaeth o'r byd o'i gwmpas, a thrwy hynny, cyflawni ei botensial fel person. Er mwyn creu amodau o'r fath, dadleuir y bydd angen cymryd cyfres o gamau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael y math o gyfleoedd cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol a fydd yn hwyluso ei ddatblygiad i fod yn berson annibynnol.
- : **Gwladwriaeth Ymyraethol:** Yn sgil y dehongliad newydd o ystyr rhyddid, mae Rhyddfrydwyr Modern hefyd wedi arddel syniadau gwahanol iawn ynglŷn â rôl briodol y wladwriaeth. Mynnwyd nad yw hi'n bosib creu'r amgylchiadau a fydd yn golygu bod gan bob unigolyn y rhyddid i ddatblygu a chyflawni ei botensial trwy ddibynnu ar wladwriaeth gyfyngedig iawn sydd ond yn canolbwyntio ar gadw'r heddwch. O ganlyniad, mae Rhyddfrydwyr Modern wedi galw am wladwriaeth sy'n barod i ymyrryd mewn gwahanol feysydd cymdeithasol (e.e. meysydd addysg a iechyd) a hefyd ymyrryd yn yr economi (e.e. trwy gynlluniau creu gwaith) er mwyn hybu llewyrch a chydarddoldeb cymdeithasol. Yn sgil hynny, bydd yn hybu rhyddid aelodau cymdeithas i fyw bywydau annibynnol.

Ffigwr a oedd yn allweddol i ddatblygiad y ffrwd fodern hon o ryddfrydiaeth gymdeithasol oedd **T. H. Green** (1836-1882). Dylanwadwyd ar Green gan waith blaenorol J. S. Mill (1806-1873), ond llwyddodd i ddatblygu ar y gwaith hwn gan arwain at raniad mwy pendant oddi wrth y traddodiad clasurol cynt. Ochr yn ochr â Green gellid hefyd ystyried **L. T. Hobhouse** (1864-1929) fel un o ladmeryddion amlycaf y ryddfrydiaeth gymdeithasol newydd.

Gwelir pob un o'r elfennau allweddol a nodwyd uchod – yr unigolyddiaeth gymdeithasol, y dehongliad positif o ryddid a'r gred mewn gwladwriaeth ymyraethol – yn amlygu eu hunain yng ngwaith Green. Er enghraifft, pwysleisiodd Green fod cymdeithas yn llawer mwy na dim ond casgliad o unigolion hunangynhaliol heb unrhyw gyfrifoldeb tuag at eraill. Mynnodd ein bod yn greaduriaid cymdeithasol, sydd â chyfrifoldebau tuag at eraill. Ar ben hynny, Green oedd un o'r cyntaf i herio'r pwyslais rhyddfrydol clasurol ar ryddid negatif, gan ddadlau o blaid y dehongliad mwy positif. Dadleuodd nad oedd y dehongliad negatif yn rhoi digon o gyfle i bobl i ddatblygu a chyflawni eu potensial. Roedd yr anawsterau cymdeithasol a oedd yn nodweddu cymdeithasau diwydiannol y cyfnod yn tanseilio ymdrechion o'r fath. O ganlyniad, diystyr fyddai unrhyw ryddid nad oedd hefyd yn cymryd camau cadarnhaol i helpu pobl i ddygydd â'u problemau. Yng nhyb Green, yn pendraw roedd y dehongliad negatif yn gyfystyr â rhoi'r 'rhyddid i'r unigolyn i lwgu'. Fodd bynnag, mae'r dehongliad positif o ryddid yn anelu at rymuso'r unigolyn a'i warchod rhag bygythiadau megis tlodi, afiechyd ac anwybodaeth. Ymhellach, ar sail y pwyntiau hyn, dadleuodd Green y dylai rhyddfrydwyr gydnabod yr angen am wladwriaeth a oedd yn fwy parod i ymyrryd mewn gwahanol feysydd cymdeithasol er mwyn hybu rhyddid a chyfleoedd gwahanol bobl a hefyd er mwyn hybu lles y gymdeithas yn gyffredinol. Yn uchel ar ei restr o flaenoriaethau roedd mesurau i warchod iechyd a hefyd mesurau addysgiadol.

Yn ogystal â dangos bod angen i'r wladwriaeth ymyrryd a darparu cefnogaeth mewn meysydd cymdeithasol megis iechyd ac addysg, fel y gwnaeth Green, daeth y rhyddfrydwyr modern i ddadlau o blaid ymyrraeth yn yr economi hefyd. Yn ganolog i hyn roedd gwaith yr economegydd **John Maynard Keynes** (1883-1946). Roedd syniadau Keynes yn feirniadol o waith economegwyr clasurol megis Adam Smith a'u pwyslais ar bolisiau *laissez-faire*. A siarad yn gyffredinol, tra roedd Smith ac eraill yn dadlau bod rhyddid a llewyrch economaidd yn dibynnu ar baroddrwydd y wladwriaeth i gamu yn ôl yn llwyr o'r maes, roedd Keynes yn mynnu mai dim ond trwy gyfrwng ymyrraeth gan y wladwriaeth y gellid creu economi sefydlog a ffyniannus ac felly hybu'r syniad o ryddid positif.

Yn ôl Keynes, dylai ymyrraeth y wladwriaeth gynnwys yr hyn a ddisgrifiwyd ganddo fel '*demand management*'. Golygai hyn bod y wladwriaeth yn mynd ati'n fwriadol i siapio'r economi gan ymateb yn gadarnhaol i broblemau megis diweithdra a dirwasgiad. Er enghraifft, mewn cyfnod o anhawster economaidd, gall y wladwriaeth roi hwb fawr i economi ardal benodol trwy adeiladu ysgol newydd. Byddai prosiect o'r fath yn arwain at gyflogi llu o adeiladwyr a chrefftwyr. Byddai hyn yn ei dro yn rhoi hwb i sectorau eraill o fewn yr economi gan fod y gweithwyr hyn yn gorfod gwario er mwyn prynu deunyddiau. Yn nhyb Keynes, byddai'r effaith hon, yn y pendraw, yn treiddio drwy'r economi'n gyffredinol.

Fel y nodwyd, ffrwd o ryddfrydiaeth a ddaeth i amlygrwydd yn ystod y cyfnod rhwng y 1880au a'r 1920au oedd Rhyddfrydiaeth Fodern. Yn wir, byddai'r ffrwd hon yn datblygu i fod yn un arbennig o ddylanwadol ar draws y byd gorllewinol yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan ddylanwadu'n sylweddol ar bolisiau cymdeithasol ac economaidd y mwyafrif o wladwriaethau. Er bod ei dylanwad wedi edwino tipyn dros y degawdau diwethaf, yn wyneb ymlediad syniadau neo-ryddfrydol ers yr 1970au, mae Rhyddfrydiaeth Fodern yn parhau i gynrychioli ffrwd bwysig o feddwl o fewn y traddodiad rhyddfrydol